



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Y Gwir Anrh Alun Cairns AS  
Ysgrifennydd Gwladol Cymru  
Swyddfa Cymru  
Gwydyr House  
Whitehall  
Llundain  
SW1A 2NP

Eich cyf: 83Sub19  
Ein cyf: PO602/EJ/TJ

12 Chwefror 2019

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

Diolch am eich gohebiaeth ddiweddar ynglŷn â Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Nodais â diddordeb eich sylwadau, sy'n amlinellu:

- y byddech yn cefnogi newid y term "Cynulliad" i "*Parliament*" yn Adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- eich bod o'r farn y gellid dadlau y byddai newid o'r fath yn gysylltiedig â newid enw'r Cynulliad.

Rwy'n ddiolchgar iawn am eich adborth cadarnhaol ar y mater hwn. Efallai y byddai o gymorth egluro dau bwynt yn eich gohebiaeth.

Rydych yn cyfeirio at gynnig i newid enw'r Cynulliad i "Senedd Cymru". Byddai Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), fel y'i cyflwynir, yn newid yr enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Senedd" nid "Senedd Cymru".

Hefyd, ni fydd y Bil (fel y'i cyflwynir) yn newid y term '*Assembly*' (lle mae'n ymddangos gyntaf yn Adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru) i '*Parliament*'. Yn hytrach, bydd y Bil yn darparu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y mae Deddf Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r sefydliad) yn cael ei alw'n Senedd, ac y gall y

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Senedd gael ei alw hefyd yn *Welsh Parliament*. Nodir y rhesymeg sy'n sail i'r drafftio hwn yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil.

Rwy'n rhagweld y bydd y mater o sut y dylid diwygio Adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried yn ystod y gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Bydd eich cyfraniad yn helpu i lywio'r drafodaeth honno.

Nodais eich bod wedi anfon copi o'ch gohebiaeth at Brif Weinidog Cymru ac at arweinwyr pleidiau. Byddaf innau hefyd yn rhannu fy ymateb â hwy ac â Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan y bydd y Bil yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir

Elin Jones AC  
Llywydd